

At Weinidogion Cymru,

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Dyletswyddau Adrodd

Yn unol â'r dyletswyddau o dan Adran 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, fe welwch isod adroddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2018 - 2019.

<p>Y camau a gymerwyd i hyrwyddo'r defnydd o lwybrau teithio llesol.</p>	<p>Yn ystod 2018 - 2019, mae'r Cyngor wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gweithredu rhaglen barhaus o waith i ddiweddar/gwella rhannau o droedffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys gosod wyneb newydd, darparu ymylon palmant isel, rheiliau newydd a gwaith lledaenu.• Parhau i gymryd rhan mewn mentrau i hyrwyddo RhCT fel cyrchfan ar gyfer cerdded a beicio.• Parhau i gymryd rhan yn Rhaglen Teithiau Iach (mewn ysgolion), ar y cyd â Sustrans.• Adnewyddu'r dudalen teithio llesol a beicio ar wefan y Cyngor eto. Mae'r dudalen bellach yn cynnwys lleoliad cyfleusterau storio beiciau ar draws Rhondda Cynon Taf.• Llunio Canllaw Teithiau Cynaliadwy ar gyfer canol tref Pontypridd o gymunedau cyfagos a Chanllawiau Teithiau Cynaliadwy ar gyfer canol Glynrhedynog a'r Porth. Roedd y tri chanllaw yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.
--	--

	<ul style="list-style-type: none">• Parhau â'r cynllun Beicio i'r Gwaith ar y cyd â Halfords yn rhan o'i Gynllun Buddion ar gyfer Staff.• Mabwysiadu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer RhCT wedi'i ddiweddarau.• Cefnogi partneriaethau cymunedol lleol gyda'u cynlluniau i ddatblygu llwybrau beicio hamdden fel mesur i hybu twristiaeth ac adfywio ardaloedd lleol. E.e. Canolfan Weithgareddau Awyr Agored Daerwynno, Ynysybwl.• Llunio map o Drefforest ar gyfer myfyrwyr ac ymwelwyr yn dangos y llwybrau cerdded rhwng dau safle campws y brifysgol, lleoliad standiau storio beiciau a'r arosfannau bysiau agosaf.• Cynnal nifer o sesiynau beicio gyda'r nos yn ystod yr haf ar hyd llwybrau beicio lleol, o'r enw 'Seiclo yn y Tywyllwch'.• Darparu hyfforddiant beicio o Safonau Cenedlaethol i 997 o ddisgyblion yn 2018 - 2019 drwy roi'r hyfforddiant angenrheidiol i feicwyr ifainc er mwyn iddyn nhw fod yn fwy diogel a mwy cymwys.• Darparu hyfforddiant Kerbcraft i 1,443 o ddisgyblion yn 2018 - 19 i roi sgiliau ac ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ar y ffordd i ddisgyblion ifainc er mwyn iddyn nhw fod yn gerddwyr mwy diogel.• Cynnal cyfarfodydd rheolaidd o weithgor beicio a gafodd ei sefydlu. Mae'r cyfranogwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o adrannau amrywiol y Cyngor, Sustrans ac
--	--

	<p>Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gweithgor yn rhannu gwybodaeth ac ymarferion gorau.</p>
<p>Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig</p>	<p>Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyfeirio at 2018 - 2019.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn cyhoeddi'r Map Rhwydwaith Integredig, fe wnaeth y Cyngor gomisiynu nifer o astudiaethau gwahanol er mwyn ymchwilio'r posibilrwydd o alinio llwybrau teithio llesol newydd neu estynedig mewn gwahanol rannau o RCT. Yn benodol, y llwybrau drwy Gymoedd y Rhondda, o fewn Ystad Ddiwydiannol Trefforest, ar hyd Cwm Cynon a rhwng Bryn-cae a Thonysguboriau drwy Lanharan. Mae astudiaethau ar wahanol gamau datblygu, ond mae ymarferion ymgysylltu cyhoeddus cychwynnol eisoes wedi'u cynnal mewn cysylltiad â rhai o'r astudiaethau yma. • Ar y cyd â sefydliadau partner, aethpwyd ymlaen â'r achosion busnes ar gyfer ailagor y twneli rheilffordd segur (rhwng Dyffryn Rhondda a Dyffryn Gwynfi a rhwng Cwm Cynon a Merthyr Tudful) i gerddwyr a beicwyr. • Adeiladu nifer o gysylltiadau newydd i wella mynediad i / o'r rhan o'r Llwybr i'r Gymuned a agorwyd yn ddiweddar yn Llantrisant. • Cwblhau nifer o Gynlluniau 'Llwybrau Diogel mewn Cymunedau' i gydfynd â'r cynllun ad-drefnu ysgolion arfaethedig, a chreu llwybrau cerdded a beicio newydd mewn ardaloedd lleol. e.e.

	<p>cam 2 llwybr ardal y Porth a Phont-y-clun.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud nifer o welliannau i'r briffordd sydd o fudd i feicwyr fel gwaith trin wyneb y ffordd mewn gwahanol leoliadau ar draws RhCT ac atgyweirio gwaith maen i bontydd afonydd.
<p>Y costau sydd ynghlwm â llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • £250,000 - (i) adeiladu cysylltiadau newydd i roi gwell mynediad i / o'r rhan o Lwybr Cymunedol Llantrisant a gafodd ei agor yn ddiweddar, (ii) adeiladu cyswllt newydd i / o Lwybr Taith Taf yn Nantgarw. • £37,000 - adeiladu ffordd gyswllt fer rhwng Aberaman a Chwm-bach a gosod goleuadau stryd newydd a chanllaw. • £165,000 - cwblhau cam 2 llwybr ardal y Porth a Phont-y-clun ar gyfer cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. • £1,252,000 - cynlluniau gwella diogelwch cerddwyr a diogelwch ffyrdd mewn safleoedd yn Abercwmboi. Cwm Clydach, Cwmaman, y Cymer, Tonypany, Tonyrefail a Threorci. • £767,000 ar gyfer gwaith amrywiol i lwybrau troed megis gosod wyneb newydd, gosod cyrbiau newydd, ailosod cerrig palmant sy'n rhydd, lledaenu llwybrau ayb.

Yn ychwanegol i'r uchod (dewisol):

<p>Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig wedi'u hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan drydydd parti.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfraniad o £20,000 gan y Cyngor tuag at fenter ar y cyd â Sustrans i dreialu datblygiad teithiau teithio llesol yn canolbwyntio ar Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen ger Pontypridd.
<p>Hyd y llwybrau newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Mannau i Bawb 	<p>Cerdded (llwybrau newydd) 0.09 cilomedr Beicio (lon ar y ffordd) 0 cilomedr Mannau i Bawb 0.185 cilomedr</p>
<p>Hyd y llwybrau sydd wedi'u gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Mannau i Bawb 	<p>Cerdded (troedffyrdd wedi'u gwella) 17 cilomedr Beicio (lon ar y ffordd) 0 cilomedr Mannau i Bawb 0 cilomedr</p>
<p>Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu 4 cyfleuster storio beiciau newydd yn Nhonypandy ar ôl cwblhau gwaith tir cyhoeddus yng nghanol y dref. • Gosod arwyddion cyfeiriadol newydd wedi'u diweddarau mewn gwahanol leoliadau ledled RhCT. • Arwyddion newydd ar Lwybr Taith Taf.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol):

Cynnal arolwg i staff, cleifion allanol ac ymwelwyr yn Ysbyty Cwm Cynon, Aberpennar er mwyn dod o hyd i rwystrau sy'n eu hatal rhag cerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus er mwyn teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysbyty. Cafodd adroddiad ei gyflwyno i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae gwaith wedi'i wneud i ddylunio pont newydd dros Nant Cae Dudwg sy'n rhan o Lwybr Taith Taf. Mae gwaith dylunio arall wedi'i wneud yn ymwneud â'r ailagor arfaethedig o'r twneli rheilffordd segur yng Nghwm Rhondda a Chwm Cynon.

Rwy'n cadarnhau y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar-lein, yn unol â'r Canllaw Cyflenwi statudol.

Chris Bradshaw
Prif Weithredwr


